

1.

## Gweithrediadau ysgol

Gan ddefnyddio'r [arweiniad](#) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae pob awdurdod lleol wedi darparu arweiniad i'w hysgolion.

- *Dylai ysgolion gyfeirio at arweiniad yr Awdurdod Lleol am gefnogaeth bellach.*

2.

## Adolygu diwylliant yr ysgol

Mae angen i ysgol asesu ac arfarnu ei sefyllfa a meddwl yn ofalus am ble maen nhw ar hyn o bryd a'r diwylliant maen nhw am ei ddatblygu.

- *Beth yw'r ystyriaethau unigryw ar gyfer cyd-destun yr ysgol?*
- *Beth yw'r systemau, yr arferion a'r ymddygiadau ar gyfer staff a dysgwyr?*



### Amser i wirio lles

[Sut mae dysgwyr a staff?](#)

3.

## Cynllunio a dilyniannu cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys, "yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd i geisio cyflawni'r dibenion addysg y cytunwyd arnynt," fel dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell.

Ystyriwch **beth, pam a sut** i sicrhau bod y cwricwlwm:

- *Yn eang a chytbwys*
- *Yn gydlynol a blaengar*
- *Yn gyfoethog mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol*
- *Yn cefnogi lles dysgwyr a sgiliau dysgu hunangyfeiriedig*

4.

## Agwedd gyson tuag at ddysgu ac addysgu

Mae gwledigaeth yr ysgol ar gyfer dysgu wedi'i thanategu gan ragoriaeth a tegwch i bob dysgwr. Bydd gwybodaeth bellach am fodelau addysgu ar gael ar wefan CCD [yma](#).

- *Pa fodel / modelau y mae'r ysgol yn ei/eu defnyddio ar hyn o bryd? A oes angen ailystyried / addasu hyn?*
- *A yw pob ymarferydd yn gwybod, yn deall ac yn cymhwyso'r polisi dysgu ac addysgu yn gyson?*

5.

## Pa dechnoleg y mae ein cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion a staff ei defnyddio

Mae [Canllawiau Dysgu Cyfunol CCD](#) yn cynnwys gwybodaeth am yr offer sydd ar gael ar Hwb (tudalennau 23 - 25).

- *A oes gan yr holl staff a dysgwyr y dechnoleg a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt?*

**Amser i wirio lles**[Sut mae dysgwyr a staff?](#)**6.****Cytuno ar ddulliau cyfunol**

Dylai cyd-destun unigryw'r ysgol fod yn sbardun i benderfyniadau.

- *Yn seiliedig ar bwyntiau 1 - 5 o'r map ffordd hwn, pa fodolau cyfunol y bydd ymarferwyr yn eu defnyddio? (Cyfeiriwch at [Canllawiau Dysgu Cyfunol CCD](#) tudalennau 11-16)*

**7.****Dewis strategaethau ac ymagweddau (pwy sy'n gwneud beth pryd)**

Mae'n rhaid i bob math o gynllunio ar bwy sy'n gwneud beth a phryd ddechrau gyda'r dysgu a fwriadwyd ar gyfer pob dysgwr. Mae [Canllawiau Dysgu Cyfunol CCD](#) yn cynnwys gwybodaeth am strategaethau a dulliau ystafell ddosbarth yng nghyd-destun dysgu cyfunol (tudalennau 18-22).

- *Ystyriwch pa strategaethau a dulliau y dylid eu defnyddio ar gyfer dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr?*

**8.****Penderfynu ar ddolen adborth ar gyfer dysgu**

Mae angen adborth rheolaidd ar ddysgwyr ar eu dysgu mewn dulliau wyneb yn wyneb ac o bell. Dylai'r rhain gael eu defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol.

- *Sicrhewch fod adborth i bob dysgwr wedi'i integreiddio i strategaethau a dulliau gweithredu.*

**Amser i wirio lles**[Sut mae dysgwyr a staff?](#)**9.****Ymgysylltu â rhieni / gofalwyr a dysgwyr**

Mae angen gwybodaeth glir ar rhieni / gofalwyr a dysgwyr am ddulliau'r ysgol o ddysgu cyfunol. Mae angen cefnogaeth ar rhieni / gofalwyr a dysgwyr i ymgysylltu â dysgu cyfunol.

- *Pa strategaethau penodol sydd gan yr ysgol i sicrhau bod rhieni / gofalwyr a dysgwyr yn wybodus am yr ymagweddau at ddysgu cyfunol?*
- *Pa gefnogaeth ac arweiniad a gynigir i rhieni / gofalwyr fel y gallant gefnogi eu plentyn i ymgysylltu â'r dysgu cyfunol?*

**10.****Myfyrio ar ddysgu cyfunol**

Rhowch gyfleoedd i ddysgwyr, ymarferwyr a rhieni / gofalwyr roi adborth ar eu profiadau a defnyddio'r wybodaeth hon i fireinio'r dull dysgu cyfunol.

- *Ni ddylai ysgolion ystyried dysgu cyfunol fel rhywbeth sefydlog; dylai fod yn ddull iterus wrth iddynt ddysgu beth sy'n gweithio i'w dysgwyr a staff.*

**Amser i wirio lles**[Sut mae dysgwyr a staff?](#)